# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 2 Hydref 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser, G.B. Thomas and J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr K.Davies a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio E/37292.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 11.30 am - 1.50 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | 4.2 - Cais Cynllunio W/37575 - Estyniad deulawr y tu cefn i'r breswylfa yn rhif 13 Plas Penwern, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3PN | Yn perthyn i wrthwynebwr y cais |
| J. James | 6.1 - Cais Cynllunio S/36993 - Adeiladu 103 o breswylfeydd, ffordd fynediad ac isadeiledd cysylltiedig ar dir sy'n rhan o'r hen Goodig Hotel, Heol Pwll, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin | Ei gefnder yn byw ger y datblygiad |

## 3. E/37292 - CODI GAREJ AR WAHÂN Â THO Â PHIG, 125 HEOL SARON, SARON, RHYDAMAN, SA18 3LH

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De] at yr ymweliad preifat i'r safle a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (cofnod 3.1 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gyhaliwyd ar 23 Awst 2018 yn cyfeirio at hyn), er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle. Cyfeiriodd, gyda

chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.

Cafwyd sylw yn gwrthwynebu'r cais, a ail-bwysleisiai'r gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio a oedd hefyd yn cyfeirio at hanes y safle, natur ormesol y datblygiad, uchder y wal derfyn gyfagos, y gwaith o godi'r llawr gwaelod i'w uchder presennol, safle cwteri dŵr glaw, craciau ar y llwybr i'r eiddo cyfagos a'i fod yn groes i Bolisi GP6 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin oherwydd ei effaith ar amwynder y breswylfa gyfagos.

Ymatebodd yr ymgeisydd ac Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) i'r materion a godwyd. Gan gyfeirio'n benodol at bryderon y cymydog o ran uchder ac effaith y wal derfyn, cynigodd yr ymgeisydd leihau uchder y wal drwy gael gwared â dwy res o flociau concrid yn hytrach nag un rhes fel y cynigwyd yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais cynllunio E/37292, yn amodol ar gyflwyno cynlluniau diwygiedig sy'n rhoi manylion ynghylch lleihau uchder y wal derfyn, fel y cynigwyd gan yr ymgeisydd.**

## 4. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio:-**

| | |
|---|---|
| **E/37720** | **Codi adeilad â ffram eang o ddur, waliau panel concrid a phroffil bocs â thalennau dur i'r bondo at ddefnydd storfa dail dan do, ynghyd â'r holl waith cysylltiedig yng Ngodre Garreg, Llangadog, SA19 9DA** |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio:-**

| | |
|---|---|
| **W/37444** | **Cynnig am faes ymarfer ceffylau yn Ysgubor Goch, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0EE**<br><br>(Noder: bydd trafodaethau pellach ynghylch diwygio amod rhif 4 o ran estyn y terfyn amser ar gyfer defnyddio llifeoluadau o 8.00 p.m. tan 9.00 p.m, yn cael eu cynnal â'r ecolegydd cynllunio) |

**4.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/37575** | **Estyniad deulawr y tu cefn i'r breswylfa yn rhif 13 Plas Penwern, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3PN**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle yn sgil pryderon a godwyd ynghylch yr effaith bosibl ar eiddo cyfagos)<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd K. Lloyd wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach a gadawodd y Siambr tra oedd y cais yn cael ei drafod gan y Pwyllgor ac ni wnaeth gymryd rhan yn y penderfyniad yn ei gylch) |

**6. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU**

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio:-**

| | |
|---|---|
| **S/36993** | **Adeiladu 103 o breswylfeydd, ffordd fynediad ac isadeiledd cysylltiedig ar dir sy'n rhan o'r hen Goodig Hotel, Heol Pwll, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin**<br><br>(Noder: Roedd y Cynghorydd J. James wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach a gadawodd y Siambr tra oedd y cais yn cael ei drafod gan y Pwyllgor ac ni wnaeth gymryd rhan yn y penderfyniad yn ei gylch) |

**7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4YDD MEDI, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 4 Medi 2018 gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**